



3/18 Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid: BrechfaConnection@pins.gsi.gov.uk
e-bost:

Eich Cyf.:

Ein Cyf.: EN020016

Dyddiad: 3 Medi 2015

Annwyl Syr/Fadam

**Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) – Adran 88 a Rheolau Seilwaith
Cynllunio (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) – Rheolau 4 a 6**

**Cais gan Western Power Distribution (De Cymru) plc am Orchymyn yn Rhoi
Caniatâd Datblygu ar gyfer Cysylltiad Coedwig Brechfa**

**Hysbysiad o Gyfarfod Rhagarweiniol, trefniadau ar gyfer gweld
cynrychioliadau perthnasol a phenodi'r Awdurdod Archwilio**

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi fy mhenodi i i weithredu fel Awdurdod Archwilio er mwyn cynnal archwiliad o'r cynnig uchod **gan Western Power Distribution (De Cymru) plc (gweler Atodiad A)**.

Mae'r llythyr hwn yn wahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol i drafod y weithdrefn archwilio ac mae'n cynnwys nifer o atodiadau. Hoffwn ddiolch i'r rhai ohonoch a gyflwynodd gynrychioliadau perthnasol. Mae'r cynrychioliadau hyn wedi fy nghynorthwyo wrth baratoi fy nghynigion ynglŷn â sut i archwilio'r cynnig hwn.

Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mawrth 6 Hydref 2015

Seddau ar gael o: 9.30am

Amser dechrau'r cyfarfod: 10.00am

**Lleoliad: Neuadd Ddinesig San Pedr, 1 Sgwâr Nott
Caerfyrddin SA31 1PG**

Diben y Cyfarfod Rhagarweiniol yw rhoi cyfle i gyflwyno safbwyntiau i mi ynglŷn â'r ffordd y dylid archwilio'r cynnig. Mae'n bwysig sylweddoli bod y cyfarfod hwn yn ymddrin â'r weithdrefn yn unig, ac nid rhinweddau'r cynnig. Ystyrir rhinweddau'r cynnig dim ond pan fydd yr archwiliad yn dechrau ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol ddod i ben.

Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn anfon copi o'm penderfyniad gweithdrefnol atoch ynglŷn â sut y bydd y cynnig yn cael ei archwilio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

Dymunaf gynnal cyfarfod teg, effeithlon ac effeithiol fel bod modd clywed yr holl safbwyntiau perthnasol. Fel y cyfryw, anogaf yn gryf grwpiau o unigolion sydd â safbwyntiau tebyg ar y weithdrefn i ddewis un cynrychiolydd i siarad ar ran y grŵp.

Rhoddir yr agenda ar gyfer y cyfarfod yn **Atodiad B**. Fe'i gosodwyd yn dilyn fy asesiad cychwynnol o'r prif faterion sy'n codi ynglŷn â'r cynnig. Amlinellir yr asesiad hwnnw yn **Atodiad C**. O ganlyniad i'r asesiad hwn, dymunaf glywed yn y cyfarfod gan yr Ymgeisydd, partion â diddordeb, partion statudol ac awdurdodau lleol lle y maent yn ystyried y gallai fod angen gwneud newidiadau i'r amserlen ddrafft a roddir yn **Atodiad Ch**.

Mae gwytodaeth gyfredol am y prosiect a'r archwiliad ar gael ar:

<http://planninginspectorate.gov.uk/BrechfaConnection>

Byddaf yn sicrhau bod copiâu o'r holl ddogfennau archwilio a chyfathrebiadau yn y dyfodol ar gael i'r cyhoedd ar y cyfeiriad gwe hwn.

Rhoddir gwytodaeth ychwanegol yn Nodyn Cyngor 8.4, sydd ar gael ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol (<http://bitly.com/1DWa7q7>).

Mynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Os dymunwch fynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol, dylech ysgrifennu at yr Arolygiaeth Gynllunio, anfon neges e-bost ati neu ei ffonio, gan ddefnyddio'r cyfeiriad a'r manylion cyswllt ar flaen y llythyr hwn, gan nodi'r ohebiaeth at sylw Nicholas Coombes, Rheolwr Achos. Bydd angen i ni dderbyn eich cadarnhad **erbyn canol dydd ar ddydd Mawrth 29 Medi 2015**.

Bydd o gymorth wrth reoli'r cyfarfod ac o fudd i bawb os byddwch hefyd yn:

- Dweud wrthym a ddymunwch siarad yn y cyfarfod ac ar ba eitemau agenda, gan restru'r pwyntiau y dymunwch eu gwneud; ac yn
- Rhoi gwybod i ni a ddymunwch siarad yn Gymraeg yn y cyfarfod; ac yn
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw anghenion arbennig a allai fod gennych (ee mynediad i bobl anabl, dolen glyw ac ati)

Mae'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn gyflwyniad defnyddiol i'r broses archwilio. Byddaf yn ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gweithdrefnol a fydd yn effeithio ar bawb sy'n cymryd rhan yn yr archwiliad. Mae'r cyfarfod yn rhoi cyfle i chi leisio'ch barn ynglŷn â materion gweithdrefnol cyn i'r penderfyniadau hyn gael eu gwneud yn derfynol. Os bwriadwch chwarae rhan weithredol yn yr archwiliad neu os oes gennych gwestiynau am y weithdrefn, byddai'n ddefnyddiol i chi fynychu'r cyfarfod. Fodd bynnag, sylwer nad oes rhaid i chi fynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol er mwyn cymryd rhan yn yr archwiliad. Os ydych yn barti â diddordeb, gallwch barhau i gyflwyno cynrychioliadau ysgrifenedig a chymryd rhan mewn unrhyw wrandawiadau a drefnir. Os penderfynwch nad ydych yn dymuno bod yn barti â diddordeb mwyach ac yn dymuno peidio â chymryd rhan yn y broses archwilio, gallwch roi gwybod i'r rheolwr achos yn

ysgrifenedig.

Ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol

Yn fuan ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol, anfonir llythyr atoch yn amlinellu'r amserlen ar gyfer yr archwiliad. Cyhoeddir y cofnod clywedol a nodyn o'r cyfarfod ar dudalen brosiect y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol hefyd.

Mae gan bartion â diddordeb yr hawl i ofyn am wrandawriad llawr agored a chaiff yr unigolion hynny yr effeithir arnynt gan unrhyw gais am gaffael gorfodol neu feddiannu eu tir neu eu hawliau dros dro, ofyn am wrandawriad caffael gorfodol. Mae unrhyw wrandawriadau eraill ynglŷn â mater penodol yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio ac fe'u trefnir os wyf o'r farn y byddai ystyried cynrychioliadau llafar yn sicrhau bod mater yn cael ei ystyried yn ddigonol. Bydd fy archwiliad yn cynnwys cynrychioliadau ysgrifenedig ynglŷn â'r cynnig ac unrhyw gynrychioliadau llafar a wnaed yn y gwrandawriadau, yn ogystal ag ystyried dogfennau'r prosiect, sefyllfaoedd cyfreithiol a pholisi, archwiliadau safle ac unrhyw faterion eraill yr ystyriaf eu bod yn berthnasol ac yn bwysig.

Bydd yr holl faterion perthnasol a phwysig yn cael eu hystyried pan fyddaf yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol yn yr achos hwn.

Penderfyniadau gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio o dan adrannau 89(3) a 93(1) Deddf Cynllunio 2008

Rwyf wedi gwneud rhai penderfyniadau gweithdrefnol rhagarweiniol. Mae'r rhain yn cynnwys pennu terfynau amser ar gyfer cytuno ar Ddatganiadau Tir Cyffredin a'u cyflwyno, a chais am ddogfennau cais diwygiedig. Amlinellir yr holl benderfyniadau gweithdrefnol hyn yn llawn yn **Atodiad Dd**.

Eich statws yn yr archwiliad

Anfonwyd y llythyr hwn atoch oherwydd eich bod chi (neu'r corff rydych yn ei gynrychioli) yn dod o fewn un o'r categorïau yn a88(3) Deddf Cynllunio 2008.

Os nad ydych yn barti â diddordeb neu'n ymgynghorai a bennwyd (h.y. corff a nodir yn y rheoliadau perthnasol sy'n ategu Deddf Cynllunio 2008), rydych wedi derbyn y llythyr hwn oherwydd dymunaf eich gwahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol fel 'Unigolyn arall' gan ei bod yn ymddangos i mi y gallai eich cyfranogiad lywio'r archwiliad. Mae gan 'Unigolion eraill' gyfeirnod sy'n dechrau gyda BFC-OP.

Os ydych wedi gwneud "cynrychioliad perthnasol", os oes gennych fuddiant cyfreithiol yn y tir yr effeithir arno gan y cynnig neu os ydych yn awdurdod lleol perthnasol (cyfeirnod sy'n dechrau gyda 100), mae gennych statws ffurfiol fel parti â diddordeb yn y broses archwilio.

Bydd partion â diddordeb yn derbyn hysbysiadau gan yr Arolygiaeth Gynllunio ynglŷn â'r archwiliad drwy gydol y broses a chânt wneud cynrychioliadau ysgrifenedig a llafar ynglŷn â'r cynnig.

Os ydych yn ymgynghorai a bennwyd (h.y. corff a nodir yn y rheoliadau perthnasol

sy'n ategu Deddf Cynllunio 2008), ond nid ydych wedi gwneud cynrychioliad perthnasol (cyfeirnod sy'n dechrau gyda BFC-SP), ni fyddwch yn barti â diddordeb yn awtomatig. Fodd bynnag, yn dilyn y Cyfarfod Rhagarweiniol, cewch gyfle arall i roi gwybod i'r Arolygiaeth Gynllunio eich bod yn dymuno cael eich trin fel parti â diddordeb.

Os ydych yn ansicr a ydych yn barti â diddordeb, cysylltwch â'r rheolwr achos gan ddefnyddio'r manylion ar frig y llythyr hwn. Rhoddir gwybodaeth ynglŷn â statws ffurfiol partïon â diddordeb a sut y gallwch gymryd rhan yn y broses yn Nodyn Cyngor 8 yr Arolygiaeth Gynllunio ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol (<http://bit.ly/1zdsVW5>).

Y Gymraeg/Welsh language

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg a Saesneg. Bydd cyfleusterau cyfieithu o Gymraeg i Saesneg ar gael ym mhob gwrandawriad, ond rhowch wybod i ni o flaen llaw os ydych yn bwriadu defnyddio'r rhain.

Rhowch wybod i ni os ydych yn dymuno derbyn gohebiaeth yn y dyfodol yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r llythyr hwn ar gael yn Saesneg gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3361648>

The Planning Inspectorate welcomes contributions in both Welsh and English. Welsh to English translation facilities will be available at each hearing, but please let us know in advance if you intend to make use of these.

Please let us know if you wish to receive future correspondence in both English and Welsh. This letter is available in English using the following link:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3361648>

Dyfarnu costau

Tynnaf eich sylw hefyd at y posibilrwydd o ddyfarnu costau yn erbyn partion â diddordeb sy'n ymddwyn yn afresymol. Dylech fod yn ymwybodol o'r canllaw costau perthnasol sy'n ymwneud â Phrosiectau Seilwaith Cenedlaethol. Mae "Dyfarnu costau; archwiliadau ceisiadau am orchmynion caniatâd datblygu" ar gael ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol (<http://bit.ly/1ODUUFi>).

Rheoli Gwybodaeth

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ymrwymedig i dryloywder. Felly, cofnodir yr holl wybodaeth a gyflwynir ar gyfer y Prosiect hwn (os caiff ei dderbyn) ac unrhyw gofnod o gyngor a roddwyd, ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Mae preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall wedi'i ddiogelu yn unol â Siarter Wybodaeth yr Arolygiaeth Gynllunio.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r holl bartion wrth archwilio'r Cais hwn.

Yr eiddoch yn gywir

Martin Broderick

Martin Broderick
Awdurdod Archwilio

Atodiadau

- A** Hysbysiad o benodi Awdurdod Archwilio
- B** Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol
- C** Asesiad cychwynnol o'r prif faterion
- Ch** Amserlen ddrafft ar gyfer archwilio'r Cais
- D** Trefniadau ar gyfer gweld Dogfennau'r Archwiliad
- Dd** Penderfyniadau gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio

Gellir rhoi cyngor ar wneud cais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud cynrychioliadau ynglŷn â chais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfwerth â chyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a'ch cyngor proffesiynol eich hun fel y bo'r angen.

Bydd cofnod o'r cyngor a roddir yn cael ei gofnodi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Bydd preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall yn cael ei ddiogelu yn unol â'n Siarter Wybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.



DEDDF CYNLLUNIO 2008

DEWIS CYCHWYNNOL O BANEL NEU UN UNIGOLYN PENODEDIG

Hysbysiad o benodi archwilydd¹ pan fo penderfyniad cychwynnol² wedi'i wneud bod y cais i'w drin gan un unigolyn penodedig

Cais: EN020016

Derbyniad: 24
Mehefin 2015

Disgrifiad o'r datblygiad: Cysylltiad Trydan Coedwig Brechfa – gosod llinell drydan 132kV, 28.6km (oddeutu 25.3km uwchben y ddaear a 3.3km islaw'r ddaear), yn cysylltu Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa, y rhoddwyd caniatâd ar ei chyfer, â llinell uwchben bresennol ger Llandyfaelog.

Dewis Cychwynnol o Banel – a61 Deddf Cynllunio 2008

Rwyf wedi ystyried *Canllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol³*, sy'n amlygu meini prawf sy'n berthnasol i benodi awdurdod archwilio, ac rwyf wedi penderfynu [ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol] y dylai'r cais gael ei archwilio gan un arholwr.

Penodi un unigolyn penodedig – a78/79 Deddf Cynllunio 2008

Rwyf wedi ystyried y sgiliau sy'n ofynnol ac wedi penderfynu [ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol] penodi Martin Broderick.

Gwneir y penodiad hwn yn unol â *Polisi Gwrthdaro Buddiannau* yr Arolygiaeth Gynllunio.

.....*Pauleen Lane*.....

26.06.15

**Dr Pauleen Lane CBE FICE MBA
Rheolwr Grŵp Seilwaith Cenedlaethol**

DYDDIAD

¹ Rheolau Seilwaith Cynllunio (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) – Rheol 4

² a26 Deddf Seilwaith 2015

³ *Canllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ar archwilio ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith sy'n arwyddocaol yn genedlaethol, Mawrth 2015, yn enwedig paragraffau 12-14*

Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol

Dyddiad:	Dydd Mawrth 6 Hydref 2015
Seddau ar gael o:	9.30am
Amser dechrau'r cyfarfod:	10.00am
Lleoliad:	Neuadd Ddinesig San Pedr, 1 Sgwâr Nott Caerfyrddin SA31 1PG

Croeso a chyflwyniadau
Sylwadau'r Awdurdod Archwilio ynglŷn â'r broses archwilio
Asesiad cychwynnol o'r prif faterion
Amserlen ddrafft ar gyfer yr archwiliad – gweler Atodiad Ch
Terfynau amser ar gyfer cyflwyno: <ul style="list-style-type: none"> • Datganiadau Tir Cyffredin • Sylwadau ar Gynrychioliadau Perthnasol • Yr Holl Gynrychioliadau Ysgrifenedig • Adroddiadau ar yr Effaith Leol • Ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio • Hysbysiadau yn ymwneud â gwrandawiadau
Egwyl (os bydd angen)
Gwrandawiadau ac archwiliad safle yng nghwmni eraill: <ul style="list-style-type: none"> • Dyddiad yr archwiliad safle yng nghwmni eraill ag aliniad llwybr y cais a'r ardaloedd amgylchynol • Dyddiad gwrandawiadau mater penodol yn ymwneud â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu • Neilltuo dyddiad ar gyfer gwrandawiadau llawr agored • Neilltuo cyfnod ar gyfer gwrandawiadau mater penodol • Neilltuo cyfnod ar gyfer gwrandawiadau caffael gorfodol
Unrhyw fusnes arall
Cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Sylwer: Dylech fod ar gael ar gyfer y cyfarfod cyfan o'r dechrau. Bydd yr Awdurdod Archwilio'n dod â'r cyfarfod i ben cyn gynted ag y bydd yr holl gyfraniadau perthnasol wedi'u gwneud. Os oes unrhyw faterion ychwanegol i'w trin neu os bydd cynrychioliadau'n cymryd llawer o amser, gallai'r Awdurdod Archwilio newid trefn eitemau'r agenda.

Asesiad cychwynnol o'r prif faterion

Dyma'r asesiad **cychwynnol** o'r prif faterion sy'n codi o ystyriaeth yr Awdurdod Archwilio o ddogfennau'r cais a chynrychioliadau perthnasol a dderbyniwyd. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr na chyfyngedig o'r holl faterion perthnasol; rhoddir ystyriaeth i'r holl faterion pwysig a pherthnasol wrth wneud argymhelliad ar ôl i'r archwiliad ddod i ben. Rhestrir y prif faterion a amlygwyd yn nhrefn yr wyddor ac ni ddylid tybio bod hynny'n awgrymu trefn pwysigrwydd.

Mae'r polisi a'r gofynion caniatáu a'r dogfennau sy'n gysylltiedig â Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) yn rhan annatod o'r archwiliad ac felly nid ydynt o reidrwydd wedi'u hamlinellu fel prif faterion ar wahân. Yn ogystal, dylid nodi bod nifer o'r prif faterion hyn a amlinellir isod yn cydberthyn ac yn gorgyffwrdd, a bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn yr archwiliad.

Mae'r prif faterion a amlygwyd wedi'u hamlinellu o dan benawdau a osodwyd yn nhrefn yr wyddor. Maent yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

Caffael Gorfodol, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Y gofyniad am y pwerau a geisir
- Yr angen i sefydlu achos cymhellol er budd y cyhoedd
- A yw'r holl ddewisiadau eraill rhesymol yn lle caffael gorfodol wedi'u harchwilio
- Trefniadau ariannol – a yw'n debygol y bydd digon o gyllid ar gael i alluogi'r hyrwyddwr i gyflawni'r caffael gorfodol o fewn y cyfnod statudol
- Pa un a yw'r dibenion a nodwyd ar gyfer y caffael yn ddilys ac yn ddigonol i gyfiawnhau'r ymyrraeth anorfod â hawliau dynol y rhai hynny yr effeithir arnynt
- Cywirdeb y llyfr cyfeirio
- Pa un a fydd unrhyw ymgwymerwyr statudol yn dioddef niwed a allai gael ei achosi trwy gynnal yr ymgwymeriad dan sylw
- Digonolrwydd unrhyw ddarpariaethau amddiffynnol a osodwyd yn y DCO drafft
- Tir y Goron

Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO), gan gynnwys materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Y disgrifiad o'r datblygiad a'r diffiniadau a ddefnyddiwyd
- Darpariaethau amddiffynnol
- Elfennau annatod y cais h.y. 3.3 km o danddaearu
- Cysondeb â'r hyn y gwnaed cais amdano
- Rhwymedigaethau fel cytundebau a106 a rhwymedigaethau unochrog

Effeithiau Economaidd a Chymdeithasol, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Yr effaith ar yr economi leol
- Yr effaith ar wasanaethau a chyfleusterau lleol
- Yr effaith ar weithgareddau amaethyddol
- Yr effaith ar dwristiaeth a defnyddwyr hamdden lleol
- Digonolrwydd y fethodoleg asesu sylfaenol ac unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig i osgoi, lleihau neu ddigolledu am effeithiau niweidiol

Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Digonolrwydd yr asesiad o'i effeithiau posibl
- Effeithiau cronol
- Newid yn yr Hinsawdd
- Llifogydd
- Sŵn a Dirgryniad, effeithiau sŵn a dirgryniad adeiladu a gweithredu, gan gynnwys ar amodau byw preswylwyr lleol
- Ansawdd a chyflenwad dŵr
- Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

Cynefinoedd, Ecoleg a Chadwraeth Natur, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Y wybodaeth a ddarparwyd a pha un a yw'n galluogi'r awdurdod cymwys i farnu a fydd y prosiect yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd unrhyw safle Ewropeaidd ai peidio
- Yr effaith ar safleoedd a rhywogaethau a warchodir gan Ewrop a safleoedd a rhywogaethau eraill a warchodir
- Effeithiau ar gynefinoedd a bioamrywiaeth
- Mesurau lliniaru a digolledu
- Posibilrwydd gollyngiad hylifau drilio

Yr Amgylchedd Hanesyddol ac Archaeolegol, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Effeithiau'r prosiect ar leoliadau asedau treftadaeth
- Effeithiau'r prosiect ar olion archaeolegol

Tirwedd a Gwelededd, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Effaith weledol y cynigion yn ystod adeiladu a gweithredu, gan gynnwys digonolrwydd dulliau asesu effaith a chywirdeb deunydd enghreifftiol
- Effeithiau ar dirwedd yr ardaloedd y mae'r datblygiad arfaethedig ynddynt ac o ble y gellid gweld y cynigion yn ddamcaniaethol
- Ystyriaeth o effeithiolrwydd y cynigion lliniaru (ar gyfer adeiladu, gweithredu a datgomisiynu), gan gynnwys i ba raddau y'u sicrhair trwy'r DCO.

Gweithredol, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Amllder mynediad cynnal a chadw

Dewis llwybr, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Cysyniad a phroses dewis llwybr
- Ystyriaeth o'r seilwaith yn erbyn Rheolau Holford¹ ac yng nghyd-destun amwynder preswyl a chyhoeddus, gan gynnwys lleoliad ac effaith y datblygiad arfaethedig
- Tanddaearu

Trafnidiaeth a Thraffig, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Symudiad a llwybr traffig adeiladu
- Y rhwydwaith ffyrdd lleol a chenedlaethol

¹ http://infrastructure.planningportal.gov.uk/wp-content/uploads/projects/EN010013/2.%20Post-Submission/Application%20Documents/Environmental%20Statement/CFAppDoc04_AnneX15.2_FINAL.pdf

Amserlen ddrafft ar gyfer archwilio'r cais

Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Archwilio i gwblhau'r archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod 6 mis yn dechrau y diwrnod ar ôl diwedd y cyfarfod rhagarweiniol.

Byddaf yn archwilio'r cais yn bennaf trwy ystyried cynrychioliadau ysgrifenedig. Bydd yr Awdurdod Archwilio hefyd yn ystyried unrhyw gynrychioliadau llafar a wneir yn y gwrandawliadau.

Eitem	Materion	Dyddiadau Cwblhau
1	Cyfarfod Rhagarweiniol	Dydd Mawrth 6 Hydref 2015
2	Cyhoeddi'r canlynol gan yr Awdurdod Archwilio: <ul style="list-style-type: none"> • Amserlen yr archwiliad • Cwestiynau ysgrifenedig cyntaf (ar y wefan) 	Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol
3	Terfyn amser 1 Terfyn amser ar gyfer derbyn: <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar gynrychioliadau perthnasol • Cynrychioliadau ysgrifenedig gan yr holl bartïon â diddordeb • Adroddiadau ar yr Effaith Leol gan unrhyw awdurdodau lleol • Datganiadau Tir Cyffredin y gofynnwyd amdanynt gan yr Awdurdod Archwilio • Ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr Awdurdod Archwilio • Sylwadau ar ddogfennau cais diwygiedig • Hysbysiad o ddymuniad i wneud cynrychioliadau llafar yng ngwrandawliadau mater penodol mis Rhagfyr • Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn gwrandawliad llawr agored • Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn gwrandawliad caffael gorfodol • Hysbysiad o ddymuniad i fod yn bresennol mewn archwiliad safle yng nghwmni eraill, lleoliadau 	Canol dydd ar ddydd Llun 9 Tachwedd 2015

	<p>awgrymedig a chyfiawnhad</p> <ul style="list-style-type: none"> Hysbysiad gan bartïon statudol o ddymuniad i gael eu hystyried yn barti â diddordeb 	
4	<p>Terfyn amser 2</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn y canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sylwadau ar gynrychioliadau ysgrifenedig Sylwadau ar Adroddiadau ar yr Effaith Leol Sylwadau ar ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr Awdurdod Archwilio DCO drafft diwygiedig gan yr ymgeisydd 	<p>Canol dydd ar ddydd Mawrth 24 Tachwedd 2015</p>
5	<p>Archwiliad o aliniad y llwybr a'r ardaloedd amgylchynol yng nghwmni eraill</p>	<p>Dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2015</p>
6	<p>Gwrandawriad llawr agored (gyda'r nos)</p>	<p>Dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2015</p>
7	<p>Gwrandawriad caffael gorfodol</p>	<p>Dydd Mercher 2 a dydd Iau 3 Rhagfyr 2015</p>
8	<p>Gwrandawiadau mater penodol (gan gynnwys, tirwedd, dewis llwybr, tanddaearu, materion economaidd-gymdeithasol, bioamrywiaeth ac adeiladu)</p>	<p>Dydd Mawrth 8 i ddydd Mercher 9 Rhagfyr 2015</p>
9	<p>Gwrandawriad mater penodol ar y DCO drafft (gan gynnwys dadleuon annatod)</p>	<p>Dydd Iau 10 Rhagfyr 2015</p>
10	<p>Terfyn amser 3</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dogfennau ôl-wrandawriad DCO drafft diwygiedig yr ymgeisydd Unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio 	<p>Canol dydd ar ddydd Llun 21 Rhagfyr 2015</p>
11	<p>Cyhoeddi'r canlynol ar y wefan gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ail rownd o gwestiynau ysgrifenedig (os bydd 	<p>Dydd Llun 11 Ionawr 2016</p>

	angen)	
12	<p>Terfyn amser 4</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i ail gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio • Hysbysiad o ddymuniad i wneud cynrychioliadau llafar yng ngwrandawiadau mis Chwefror 	<p>Canol dydd ar ddydd Llun 1 Chwefror 2016</p>
13	<p>Gwrandawriad mater penodol ar y DCO, materion gweddilliol a/neu wrandawiadau caffael gorfodol (os bydd angen)</p>	<p>Dydd Mercher 10 a dydd Iau 11 Chwefror 2016</p>
14	<p>Terfyn amser 5</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dogfennau ôl-wrandawriad • Unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio • Sylwadau ar ymatebion i ail gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio • Unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio • DCO drafft diwygiedig gan yr ymgeisydd 	<p>Canol dydd ar ddydd Iau 18 Chwefror 2016</p>
15	<p>Cyhoeddi RIES a DCO drafft ymgynghori'r Awdurdod Archwilio</p>	<p>Dydd Iau 25 Chwefror 2016</p>
16	<p>Terfyn amser 6</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar RIES a DCO drafft ymgynghori'r Awdurdod Archwilio • Unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio 	<p>Canol dydd ar ddydd Iau 17 Mawrth 2016</p>
17	<p>Terfyn amser 7</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i sylwadau ar RIES a DCO drafft ymgynghori'r Awdurdod Archwilio • Sylwadau ar unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio 	<p>Canol dydd ar ddydd Iau 31 Mawrth 2016</p>

18	Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Archwilio i gwblhau'r archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod 6 mis yn dechrau y diwrnod ar ôl diwedd y Cyfarfod Rhagarweiniol.	Dydd Mercher 6 Ebrill 2016
----	--	---------------------------------------

Dyddiadau Cyhoeddi

Bydd yr holl wybodaeth a dderbynnir yn cael ei chyhoeddi ar wefan y prosiect cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y terfyn amser ar gyfer cynrychioliadau.

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/BrechfaConnection>

Agendâu Gwrandawiadau

Sylwer y byddwn yn ceisio cyhoeddi agenda ddrafft fanwl ar gyfer pob gwrandawriad ar wefan y prosiect o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawriad; ond mae'n bosibl y bydd yr union agenda ar ddiwrnod pob gwrandawriad yn newid yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio.

Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES)

Pan fydd yr ymgeisydd wedi darparu Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol neu Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) gyda'r cais DCO, gallai'r Awdurdod Archwilio benderfynu cyhoeddi RIES yn ystod yr archwiliad. Mae'r RIES yn adroddiad ffeithiol o'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r Awdurdod Archwilio ynglŷn â materion HRA yn ystod yr archwiliad hyd at ddyddiad cyhoeddi'r RIES, er mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, fel yr awdurdod cymwys, i gynnal eu HRA. Nid barn yr Awdurdod Archwilio ar faterion HRA ydyw. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gwahodd sylwadau ar y RIES a bydd unrhyw rai a dderbynnir yn cael eu hystyried yn rhan o Argymhelliad yr Awdurdod Archwilio i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol.

Trefniadau ar gyfer Gweld Dogfennau'r Archwiliad

Bydd holl ddogfennau'r cais, gan gynnwys dogfennau cais a chynrychioliadau perthnasol, ar gael ar y tudalennau Seilwaith Cenedlaethol ar wefan y Porth Cynllunio:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/BrechfaConnection>

Gellir gweld dogfennau'n electronig yn y lleoliadau canlynol. Sylwer y gallai fod angen i chi ddangos prawf o bwy ydych i ddefnyddio'r cyfrifiadur yn y lleoliadau hyn.

Lleoliadau Adneuo Electronig:

Awdurdod Lleol	Cyfeiriad/ Llyfrgell	Oriau Agor
Sir Gaerfyrddin	Llyfrgell Caerfyrddin Stryd San Pedr Caerfyrddin SA31 1LN	Dydd Llun – 9am – 7pm Dydd Mawrth – 9am – 6pm Dydd Mercher – 9am – 6pm Dydd Iau – 9am – 7pm Dydd Gwener – 9am – 6pm Dydd Sadwrn – 9am – 5pm Dydd Sul – ar gau
Costau Argraffu	Du a Gwyn	Lliw
A4	15c	25c
A3	65c	£1
Dolen i holl leoliadau llyfrgelloedd y cyngor:		
http://www.carmarthenshire.gov.wales/home/residents/libraries-archives/ http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/llyfrgelloedd-ac-archifau/		

Penderfyniadau gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio

Mae'r Awdurdod Archwilio wedi gwneud y penderfyniadau gweithdrefnol canlynol o dan Adran 89(3) Deddf Cynllunio 2008:

1. Datganiadau Tir Cyffredin

O ran rhai o'r prif faterion a amlygwyd yn Atodiad C, byddai o gymorth i'r Awdurdod Archwilio pe byddai Datganiadau Tir Cyffredin yn cael eu paratoi rhwng yr ymgeisydd a phartion penodol â diddordeb. Felly, mae'r amserlen ddrafft ar gyfer yr archwiliad yn darparu terfyn amser ar gyfer cyflwyno Datganiadau Tir Cyffredin.

Nod Datganiad Tir Cyffredin yw cytuno ar wybodaeth ffeithiol a hysbysu'r Awdurdod Archwilio a'r holl bartion eraill â diddordeb trwy amlygu lle y ceir cytundeb a gwahaniaethau ar gam cynnar yn y broses archwilio. Dylai ddarparu ffocws ac arbed amser trwy amlygu materion na cheir anghytundeb ynglŷn â hwy neu nad oes angen darparu tystiolaeth ychwanegol yn eu cylch. Gall hefyd ddatgan yn ddefnyddiol ble a pham y gallai fod anghytundeb ynglŷn â dehongliad a pherthnasedd y wybodaeth. Yna, gellir ymhelaethu ar y rhesymau dros y gwahaniaethau a'r dehongliad o oblygiadau gwahaniaeth yn y dystiolaeth. Oni nodir neu cytunir fel arall, dylai'r Datganiad Tir Cyffredin gael ei gytuno rhwng yr ymgeisydd a'r parti perthnasol arall â diddordeb neu'r partion perthnasol eraill â diddordeb, a'i gyflwyno gan yr ymgeisydd.

Gofynnir i Ddatganiadau Tir Cyffredin gael eu paratoi gan:

Yr ymgeisydd a Chyngor Sir Caerfyrddin i gynnwys:

- Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO)
- Effeithiau Economaidd a Chymdeithasol
- Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r canlynol:
 - Digonolrwydd yr asesiad o'i effeithiau posibl
 - Effeithiau cronol
 - Sŵn a Dirgryniad, effeithiau sŵn a dirgryniad adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, gan gynnwys ar amodau byw preswylwyr lleol
- Cynefinoedd, Ecoleg a Chadwraeth Natur
- Yr Amgylchedd Hanesyddol ac Archaeolegol
- Tirwedd a Gwelededd
- Dewis llwybr
- Trafnidiaeth a Thraffig

Yr ymgeisydd â Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnwys:

- Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO)
- Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r canlynol:
 - Digonolrwydd yr asesiad o'i effeithiau posibl
 - Effeithiau cronol
 - Newid yn yr Hinsawdd
 - Llifogydd

- Ansawdd a chyflenwad dŵr
- Cynefinoedd, Ecoleg a Chadwraeth Natur
- Yr Amgylchedd Hanesyddol ac Archaeolegol
- Tirwedd a Gwelededd
- Dewis llwybr
- Trafnidiaeth a Thraffig

Dylai'r Datganiadau Tir Cyffredin ymdrin â'r pynciau canlynol lle y bo'n berthnasol:

- Y fethodoleg ar gyfer yr asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd, gan gynnwys asesiad o effeithiau cronol
- Dulliau casglu data
- Data sylfaenol
- Dadansoddi data/ystadegau, dull modelu a chyflwyno canlyniadau (gan gynnwys methodoleg ragfynegi)
- Mynegi barn a thybiaethau arbenigol yn llawn
- Amlygu nodweddion perthnasol a'u sensitifrwydd, a mesur yr effaith bosibl
- Effeithiau (anuniongyrchol ac anuniongyrchol) tebygol ar nodweddion diddordeb arbennig safleoedd a ddynodwyd neu a hysbyswyd ar gyfer unrhyw ddiben cadwraeth natur
- Mesurau lliniaru dichonadwy a chyflawnadwy, a'r dull ar gyfer sicrhau'r cyfryw fesurau lliniaru o fewn y DCO

2. Cais am ddogfennau diwygiedig

Ar ôl adolygu'r dogfennau cais a gyflwynwyd, gofynnodd yr Awdurdod Archwilio am ddiwygiadau i'r Llyfr Cyfeirio a dogfennau eraill cysylltiedig. Gwnaed y penderfyniad gweithdrefnol hwn ar 6 Gorffennaf 2015 ac fe'i cyhoeddwyd ar ein gwefan:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3276643>

Darparodd yr ymgeisydd, sef Western Power Distribution, y dogfennau diwygiedig ar 21 Awst 2015. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/brechfa-forest-connection/?ipcsection=docs&stage=app&filter=Post+submission+changes>

Gwahoddir sylwadau ar y dogfennau diwygiedig hyn erbyn y terfyn amser cyntaf.